

MHA
Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy

# Cymdeithas Tai Sir Fynwy


## Cynllun Corfforaethol 2026

# Contents




3. **Cyflwyniad**
4. Tipyn **amdanom ni**
5. Ein **Pobl**
6. Ein **Lleoedd**
7. Ein **Ffyniant**
8. Ein **Planed**
9. **Cyslltwch** â ni

# Cyflwyniad



Tony Deakin – Group Chair



Gwyndaf Tobias – Chief Executive

**Rhoi CTSF Mewn Sefyllfa Dda o Ran Twf a Chadw'n Driw i'n Cymunedau.**


Mae'r flwyddyn i ddod yn foment bwysig i GTSF wrth i ni gyflwyno ein hunaniaeth newydd. Un sy'n cefnogi ein huchelgais i dyfu tra'n cadw mewn cysylltiad cadarn â'r bobl a'r lleoedd rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2026 yn nodi rhaglen waith glir sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau sydd o'r pwys mwyaf i'n tenantiaid a'n cymunedau: cartrefi diogel, o ansawdd da; cymdogaethau cadarn a chroesawgar; cydnerthedd ariannol a chyfrifoldeb am yr amgylchedd. Wrth i ni symud ymlaen o dan ein hunaniaeth newydd, mae ein hymrwymiad i wrando ac ymateb yn ddigyfnewid. Bydd lefelau uchel o foddhad yn helpu i ddangos ble rydyn ni'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, ond byddwn yn parhau i herio ein hunain i wneud yn well a byth yn cymryd y ffydd ynom yn ganiataol.

Er mai eleni yw ein prif ffocws, mae popeth rydyn ni'n ei gyflawni wedi'i gynllunio i osod y sylfaen ar gyfer yr uchelgeisiau mwy rydyn ni wedi'u gosod ar gyfer 2030 a thu hwnt: sefydliad modern a gwydn sy'n tyfu ac un sy'n cefnogi cymunedau i ffynnu ledled Sir Fynwy a thu hwnt.

# Tipyn **amdanom ni**

Rydyn ni'n rheoli 4,200 o gartrefi..

Rydyn ni'n cyflogi 250 aelod o staff.





***Darparu cartrefi o ansawdd mewn cymunedau cynaliadwy ble mae pobl yn falch o gael byw ac yn cael eu cefnogi i ffynnu.***

## Ein Gwerthoedd



AGORED | TEG | CYFLAWNI | HYBLYG

## Mae'r cynllun wedi ei seilio ar bedwar piler allweddol:



POBL | LLEOEDD | FFYNIANT | PLANED

# Ein **Pobl**



## Grymuso pobl, cryfhau cymunedau, buddsoddi mewn potensial

### Ffocws

**Mae pobl yn parhau i fod wrth wraidd ein cenhadaeth.** Yn 2026/27 byddwn yn cyflwyno cynlluniau i wella'r gwasanaethau gyda'r sgoriau boddhad isaf, gan osod sylfeini a pharhau i sicrhau bod 90+% yn gyffredinol yn dangos boddhad yn y blynyddoedd i ddod.

Byddwn yn ehangu ein dull ymgysylltu, gan greu llwybrau newydd sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau yn well a sicrhau bod llais tenantiaid wedi'i ymgorffori yn ein gwaith i ailgynllunio gwasanaethau ac adrodd ar berfformiad ac yng ngwaith goruchwylio'r Bwrdd.

Mae llesiant cymunedol yn parhau i fod yn flaenoriaeth ganolog. Eleni byddwn yn mapio'r holl fentrau iechyd a llesiant cyfredol, yn datblygu Cynllun Cydnerthedd Cymunedol, ac yn lansio o leiaf un rhaglen llesiant newydd, gan greu'r sylfaen i gynnig cefnogaeth ddyfnach, partneriaethau cryfach a chyfleoedd ehangach yn y blynyddoedd i ddod.

I gydweithwyr, mae 2026/27 yn flwyddyn bwysig o fyfyrio a thwf. Byddwn yn cynnal asesiad llawn o allu'r gweithlu a diwylliant, yn adnewyddu ein fframwaith cymhwysedd ac yn cynnal ein harolygon, o ran ymgysylltu a boddhad y staff.

### Mesur Llwyddiant...

- Gwella dau faes gwasanaeth sydd â'r boddhad isaf
- Lansio llwybrau ymgysylltu newydd ar gyfer grwpiau tenantiaid sydd wedi'u tangynrychioli
- Cyflwyno Cynllun Cydnerthedd Cymunedol
- Cyflawni o leiaf 85% o ran boddhad aelodau staff
- Recriwtio 3% o'r gweithlu i rolau prentisiaid/hyfforddeion

# Ein **Lleoedd**



## Cartrefi sy'n teimlo'n ddiogel. Cymunedau sy'n teimlo'n fyw

### Ffocws

**Eleni, rydyn ni'n troi cynlluniau yn gynnydd ar draws ein cartrefi a'n cymdogaethau.** Daw ein Strategaeth Rheoli Asedau diwygiedig yn fframwaith sy'n ein tywys trwy ddeddfwriaeth newydd, popeth o fuddsoddi eiddo i welliannau diogelwch. Byddwn yn adolygu ein sefyllfa o ran SATC2 (WHQS2), parhau â'r gwaith datgarboneiddio pan fydd cyllid yn caniatáu, a gweithredu'n gyflym lle bynnag y nodir peryglon mewn cartrefi.

Mae ein nod hirdymor yn parhau i fod yn glir– 5,000 o gartrefi erbyn 2030—ac mae 2026/27 yn gam pwrpasol tuag at y nod. Byddwn yn prynu 30+ o gartrefi oddi ar y farchnad agored, eu cwblhau o fewn ein rhaglen ddatblygu, a sicrhau unedau ychwanegol o dir i gynnal twf yn y blynyddoedd i ddod. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn dechrau llunio ein Strategaeth Deiliadaeth gyntaf, gan agor y drws i ddatblygiadau deiliadaeth gymysg sy'n adlewyrchu anghenion lleol sy'n newid.

Rydym hefyd yn parhau i weithredu fel partner yn y maes adfywio. O werthuso cyfleoedd canol trefi i alinio ein buddsoddiad mewn cymdogaethau â blaenoriaethau creu lleoedd yr awdurdod lleol, byddwn yn cryfhau'r lleoedd lle mae ein cymunedau yn byw, yn gweithio ac yn cysylltu.

### Mesur Llwyddiant...

- Prynu 30 cartref newydd
- Cwblhau cartrefi newydd o fewn ein rhaglen ddatblygu
- Cwblhau'r holl welliannau diogelwch/ llesiant lle cafwyd hyd i beryglon
- Lleihau nifer yr arolygiadau lleithder/ llwydni

# Ein Ffyniant



## Sefydliad gwydn wedi'i adeiladu i feithrin hyder hirdymor

### Ffocws

**Mae ffyniant yn golygu cadw CTSF yn gryf - yn ariannol, yn ddigidol ac o ran ei llywodraethu.** Yn 2026/27 byddwn yn cryfhau arweinyddiaeth drwy gynllunio olyniaeth, asesu effaith ein hunaniaeth newydd a pharatoi ar gyfer Safonau'r Gymraeg, gan gynnal sefyllfa reoleiddiol gref.

Mae seiberddiogelwch yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Byddwn yn gweithredu'r argymhellion a ddaeth i'r amlwg yn ein hadolygiad annibynnol, cyflawni achrediad Cyber Essentials, profi ein cynlluniau ymateb a meithrin ymwybyddiaeth ledled y sefydliad.

Mae cydnerthedd ariannol yn sail i'n huchelgeisiau. Byddwn yn cynnal sgôr credyd mewnol yn y chwartel uchaf, yn cyflawni ein gwarged gweithredu arfaethedig ac yn adolygu anghenion cyllido yn y dyfodol i gefnogi twf.

Byddwn yn cyhoeddi ein Strategaeth Gaffael newydd, ymgorffori mwy o werth cymdeithasol wrth gomisiynu, a chyflwyno dangosfwrdd Gwerth am Arian unedig i wella mewnwelediad i gost, perfformiad ac effaith.

Yn olaf, yn 2026/27, byddwn yn lansio ein Hwb Arloesi a Newid Busnes ac yn adnewyddu ein Strategaeth Ddigidol, gan gefnogi sefydliad mwy modern ac effeithlon erbyn 2031.

### Mesur Llwyddiant...

- Cwblhau cynllun olyniaeth a phroses recriwtio i'r Bwrdd
- Cyflawni achrediad Cyber Essentials
- Cwblhau cynlluniau ymateb i ddigwyddiadau seiber a phrofion cysylltiedig
- Cynnal sgôr credyd mewnol yn y chwartel uchaf
- Sefydlu Hwb Arloesi a Newid Busnes
- Cwblhau archwiliad llawn o ran systemau a data digidol

# Ein Planed



## Cymryd cyfrifoldeb am heddiw, diogelu yfory

### Ffocws

**Mae ein huchelgeisiau amgylcheddol yn parhau i dyfu o ran graddfa a hyder.** Yn 2026/27 byddwn yn cyflawni Cam 2 ein Llwybr Sero Net o ran Ynni Gweithredol, ochr yn ochr â chamau gweithredu mawr o fewn y rhaglen Targedu Llwybrau Ynni - 1,000 o asesiadau stoc gyfan, paneli ffotofoltäig ar 150 o gartrefi a gwelliannau SAP75 ar gyfer 2,450 o eiddo. Bydd pob cartref newydd a gwblhawyd eleni yn cyflawni gradd EPC A.

Byddwn yn cydymffurfio'n fwy â safonau busnes cyfrifol Sustainability for Housing, yn creu Strategaeth 10 mlynedd ar gyfer Mannau Gwyrdd, ac yn cyflawni'r prosiect cyntaf o fewn y strategaeth, i wella bioamrywiaeth, mynediad at natur a mannau awyr agored yn ein cymunedau.

Mae ein cynlluniau hirdymor yn nodi llwybr clir tuag at dargedau cenedlaethol, gan gynnwys bodloni safonau SAP75 SATC2 ymhob cartref erbyn 2030 ac integreiddio ein gosodiadau adnewyddadwy i 500 o gartrefi y flwyddyn o 2027.

### Mesur Llwyddiant...

- Cyflawni Cam 2 y Llwybr Sero Net
- Cwblhau 1,000 o asesiadau stoc gyfan
- Gosod paneli ffotofoltäig ar 150 o gartrefi
- Cyflawni SAP75 ar 2,450 o gartrefi
- Cyfradd EPC A ar 100% o gartrefi newydd
- Cynnydd o 20% yng nghydymffurfiaeth SRS
- Cyflawni'r cyntaf o brosiectau Mannau Gwyrdd

# Cysylltu â Ni



0345 677 2277

customerservices@monmouthshirehousing.co.uk

www.monmouthshirehousing.co.uk

Monmouthshire Housing Association
Nant-Y-Pia House, Mamhilad Technology Park
Mamhilad, Monmouthshire, NP4 0JJ

facebook.com/Monmouthshire.Housing